Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu
**Lôn Cymau**
**Caergwrie**
**Wrecsam**
**LL12 9DH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Abermorddu yn gwasanaethu cymuned lled wledig o amgylch pentref Abermorddu yn Sir y Fflint. Nid yw dalgylch yr ysgol yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae'r plant sy'n dod i mewn bob blwyddyn yn cwmpasu'r ystod gallu llawn.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 235 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi Saesneg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, mae gan 11% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 10% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na chyfartaledd Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2006. Yn ogystal â'r pennaeth, mae naw o athrawon amser llawn ac un athro rhan-amser. Ym Mehefin 2007 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Abermorddu yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,911 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £13,748 a'r lleiafswm yw £2,758. Mae Ysgol Gynradd Abermorddu yn y 61ain safle o'r 73 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda iawn, maent yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda at ddysgu;
- mae profiadau dysgu cyfoethog ac addysgu o ansawdd da yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu cymell a'u diddori;
- mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth; ac
- mae ansawdd da y gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir i'r disgyblion yn dylanwadu'n dda ar eu safonau a'u lles.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gweledigaeth glir gan y pennaeth sy'n canolbwyntio ar wella lles a safonau'r disgyblion;
- mae pob aelod o staff yn deall eu rolau'n glir, maent yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau gwella'r ysgol;
- mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn nodi meysydd i'w datblygu yn gywir; ac
- mae trefniadau partneriaeth cadarnhaol yn cyfrannu'n dda at safonau a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddefnyddio’u medrau Cymraeg y tu allan i wersi ffurfiol

A2 Sicrhau cysondeb mewn asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o’r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A3 Sicrhau bod y corff llywodraethol yn cael ei gynnwys yn fwy effeithiol yn yr hunanarfarnu

A4 Ehangu cyfleoedd i athrawon ymwneud â chymunedau dysgu proffesiynol ac i rannu arfer dda y tu hwnt i’r ardal leol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn mynd i mewn i'r ysgol gyda medrau islaw hynny a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion mwy galluog, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i ddysgu gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda mewn ystod o bynciau. Dangosa'r rhan fwyaf ohonynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd. Maent yn gwrando'n dda iawn ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu canolbwyntio'n dda a chyfrannant yn effeithiol at drafodaethau yn y dosbarth.

Mae safonau darllen yn dda, ac mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos diddordeb yn y llyfrau y maent yn eu darllen, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl, yn gywir a gyda mynegiant da. Siaradant yn eiddgar am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a rhediad stori. Mae llawer ohonynt yn gallu brasddarllen darn yn gynyddol i gael ei ystyr ac i gasglu gwybodaeth. Cymhwysant eu medrau darllen yn dda mewn pynciau gwahanol, a gallant leoli a dod o hyd i wybodaeth yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae bron pob un ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn effeithiol iawn ar draws y cwricwlwm, yn enwedig mewn llyfrau testunau dosbarth. Ysgrifennant mewn brawddegau llawn gydag atalnodi priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau a geirfa ddiddorol. Ysgrifennant yn hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau, ac yn aml mae eu hysgrifennu yn feddylgar ac yn llawn dychymyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu yn dda i gynhyrchu darnau ysgrifennu estynedig o ansawdd da ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn eu hanes ac yn eu hastudiaethau o'u hardal leol. Fodd bynnag, mae medrau cyflwyno a llawysgrifen yn anghyson ac yn aml nid ydynt yn adlewyrchu ansawdd da y cynnwys.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu. Mae ystod o raglenni cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn effeithiol o ran gwella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion wedi'u targedu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran ennill medrau yn y Gymraeg. Gwna lawer ohonynt ddefnydd da o'u medrau dwyieithog datblygol i gefnogi eu dysgu mewn gwersi eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni'n dda yn eu gwersi strwythuredig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion a chyfarwyddiadau cyffredinol mewn gwersi eraill. Mae eu gallu i ddarllen llyfrau Cymraeg syml yn datblygu'n dda. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau byr yn dda gan ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddegau cyfarwydd. Ychydig o ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol y tu allan i'r gwersi hyn.

Yn 2012, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu gerllaw cyfartaledd Cymru, ond islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, roedd y ganran a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig uwchlaw cyfartaledd y teulu a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion mwy galluog a gyflawnodd ddeilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol. Roedd yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn medrau personol a chymdeithasol. O gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol ond yn y 50% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer cyhoeddi data'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar gael ar dueddiadau.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) a chanran y disgyblion mwy galluog a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru. Dros y pedair blynedd flaenorol, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig a chanran y disgyblion mwy galluog a gyflawnodd y lefel uwch ym mhob un o'r tri phwnc yn gyson uwchlaw cyfartaledd Cymru, a gerllaw neu'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Yn sgil perfformiad yr ysgol roedd yn y 50% uchaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd flaenorol. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad yr ysgol ei gosod yn y 25% isaf yn 2012.

Nid oes unrhyw batrwm cyson ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched dros y pedair blynedd diwethaf. Yn Saesneg, er nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol ar y lefel ddisgwyliedig, yn gyffredinol fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn ar y lefel uwch. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal â disgyblion nad oes hawl ganddynt i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2.

## Lles: Da

Mae disgyblion yn hapus, ac yn cael gofal a chymorth da. Maent yn hyderus bod y staff yn ymdrin o ddifrif ag unrhyw bryderon ac yn gweithredu arnynt yn gyflym a theg. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw'n iach a bwyta deiet iach, er nad ydynt bob amser yn gwneud dewisiadau iach amser egwyl. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ffordd weithgar o fyw.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac o dan gyfarwyddyd oedolion. Mae cael eu cynnwys yn gynyddol wrth asesu, cytuno meini prawf llwyddo a gosod targedau personol yn helpu'r disgyblion i ennill dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd, ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn chwarae'n hapus â'i gilydd amser egwyl ac amser cinio. Maent yn foesgar ac yn gwrtais wrth ymwelwyr.

Mae ffigurau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau Cymru. Yn gyffredinol, mae ffigurau'n cymharu'n dda â rhai ysgolion tebyg, er bod presenoldeb yn 2011-2012 ychydig yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae cyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco wedi'u sefydlu'n dda, ac maent yn deall eu rolau'n glir iawn. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau yn yr ysgol. Mae'r aelodau yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.

Mae cyfranogiad disgyblion mwy galluog gyda menter Abermorveg, sef cynllun arloesol i sefydlu busnes bach o amgylch rhandir yr ysgol, yn datblygu eu medrau busnes ac entrepreneuraidd yn effeithiol iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn cwmpasu holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynlluniau'r athrawon yn fanwl ac yn drylwyr, ac yn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r athrawon yn defnyddio'r ardal o amgylch yr ysgol i ennyn diddordebau a bodloni anghenion disgyblion o bob oed yn effeithiol iawn.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gymhwyso eu medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh mewn cyd-destunau gwahanol, trwy ddull trawsgwricwlaidd. Mae hyn hefyd yn annog disgyblion i ddatblygu'u medrau ymchwil ac ymarferol yn dda, ac yn ymestyn eu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth dda ar gyfer y dimensiwn Cymreig, er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn llwyddo i hyrwyddo defnydd disgyblion o iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r ddarpariaeth mewn gwersi strwythuredig yng

nghyfnod allweddol 2 yn dda; fodd bynnag, nid yw'n hyrwyddo defnydd annibynnol y disgyblion o'u medrau dwyieithog yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd ac arbed ynni yn effeithiol. Hefyd, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill. Enghraifft dda o hyn yw'r bartneriaeth sydd wedi'i datblygu'n dda gyda dwy ysgol yn Ffrainc.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon ac oedolion eraill wedi datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol iawn gyda disgyblion sy'n meithrin dysgu yn effeithiol. Mae'r athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol dda. Mae oedolion ychwanegol yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddysgu a lles disgyblion unigol a'r grwpiau o ddisgyblion y maent yn eu cynorthwyo.

Ym mhob un o'r gwersi bron, mae athrawon yn cynllunio ac yn paratoi gweithgareddau sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn diwallu anghenion pob un ohonynt. Mae cyflwyniadau athrawon yn frwdfrydig ac yn dal diddordeb yr holl ddisgyblion yn llawn. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu yn llwyddiannus, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae holi medrus yn ymestyn dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw amcanion yn glir, mae diffyg cyflymder yn y dysgu ac nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion ddigon, yn enwedig y disgyblion mwy galluog.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Maent yn rhoi adborth llafar cadarnhaol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr ac mae eu sylwadau yn gefnogol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r marcio yn helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae athrawon yn cynnwys disgyblion mwy a mwy yn y broses o osod targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o gysylltu'r marcio â thargedau disgyblion yn cael ei defnyddio'n gyson. O ganlyniad, nid yw bob amser yn glir i ddisgyblion beth sydd raid iddynt wneud i wella eu gwaith.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o asesiadau safonedig i fesur cynnydd disgyblion unigol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i dargedu cymorth ychwanegol. Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion lleol eraill i gryfhau dealltwriaeth yr athrawon o lefelau cyrhaeddiad. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi gwybodaeth glir i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lefel uchel o ofal a'r berthynas dda rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les disgyblion. Mae trefniadau effeithiol i annog disgyblion i fod yn iach, ac i sicrhau eu bod yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda. Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo strategaethau effeithiol, priodol i oed, i annog ymddygiad da yn gyson. Caiff disgyblion eu hannog gan yr ysgol i weithio'n dda gyda'i gilydd ac i ddangos parch, gofal a phryder at bobl eraill.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cymorth proffesiynol pan fo angen. Enghraifft dda o hyn yw cyfraniad gwerthfawr swyddog cyswllt yr heddlu at gyflwyno'r rhaglen astudio bersonol, cymdeithasol ac emosiynol, a diogelwch ar y rhyngrwyd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae'r athrawon yn nodi anawsterau dysgu'r disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth effeithiol ac amserol. Gwna staff cymorth gyfraniad cadarnhaol iawn at ddysgu'r disgyblion hyn. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd. Maent hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys wrth osod ac adolygu eu targedau unigol. Mae athrawon yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plentyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu ei datganiad cenhadaeth yn llwyddiannus, sef 'Hapus i ddysgu, a dysgu i fod yn hapus'. Mae staff yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiant a pherthyn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Maent yn rhoi cynnydd a lles disgyblion yn gadarn wrth wraidd eu gwaith, ac yn sicrhau bod disgyblion o bob oed, diwylliant a chefndir yn cael mynediad cyfartal at yr holl weithgareddau. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus drwy arfer yn yr ystafell ddosbarth, themâu cwricwlaidd a chysylltiadau â'r gymuned leol a gwledydd eraill.

Mae'r adeiladau o ansawdd da ac yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion. Cânt eu cynnal a'u cadw yn dda, ac maent yn darparu amgylchedd sy'n hyrwyddo dysgu yn effeithiol. Ceir offer da yn yr ystafelloedd dosbarth, ynghyd ag adnoddau o ansawdd da sy'n cyfateb yn briodol i anghenion y disgyblion. Mae'r arddangosiadau ar waliau yn creu amgylchedd dysgu diddorol ar gyfer disgyblion.

Mae'r ardal awyr agored ddiddorol yn adnodd dysgu gwerthfawr iawn. Gwna disgyblion ddefnydd da iawn o'r ardal hon ar gyfer amryw o weithgareddau, fel garddio a gweithgarwch corfforol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth sy'n canolbwyntio'n glir ar les y disgyblion ac ar wella safonau. Mae'n cynnig cyfeiriad pwrpasol, mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'r holl staff, ac mae'n llwyddo i hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o wella'r ysgol. Mae athrawon a rhieni yn ymroddgar i nodau ac amcanion yr ysgol, ac yn hyrwyddo ei gwerthoedd yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at greu ethos lle mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac ymrwymiad ar y cyd at wella safonau. Mae rôl weithredol gan yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r staff yn monitro pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella

ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gwybodaeth gyfoes gan y llywodraethwyr am berfformiad yr ysgol a'r materion sy'n effeithio arno. Mae monitro cynllun datblygu'r ysgol yn rheolaidd, ynghyd â chyfarfodydd gyda chydlynwyr y cwricwlwm, yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan y rhan fwyaf o'r llywodraethwyr o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, ychydig o lywodraethwyr sy'n cyfrannu'n effeithiol at y prosesau hunanarfarnu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae athrawon wedi rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus, ac mae'r mentrau a roddwyd ar waith i wella llythrennedd yn gwella safonau disgyblion yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu dull trwyadl o hunanarfarnu, ac wedi goruchwylio sefydlu diwylliant o adolygu gonest y mae pob aelod o'r staff yn cyfrannu'n dda ato. Defnyddia staff ystod eang o ffynonellau, sy'n cynnwys data perfformiad, canlyniadau arsylwadau o wersi a chraffu ar waith disgyblion i arfarnu perfformiad yr ysgol yn dda. Gofynnant am farnau rhieni a disgyblion yn rheolaidd.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn nodi meysydd i'w datblygu yn gywir. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol gan uwch arweinwyr i bennu blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun yn ymdrech ar y cyd gan bob aelod o'r staff addysgu ac mae'n rhoi cyferiaid clir ar gyfer datblygu'r ysgol.

Caiff aelodau'r staff gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol, yn ôl eu cyfrifoldebau penodol a'u hanghenion datblygiad proffesiynol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu, ac ar weithredu mentrau newydd yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn rhannu arfer dda yn gynyddol gydag athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol. Mae athrawon wedi sefydlu rhwydweithiau cynhyrchiol hefyd gydag ysgolion cynradd lleol eraill, ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a'r dysgu mewn gwyddoniaeth, ac o ran hyrwyddo medrau iaith Gymraeg y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Ychydig iawn o gyfleoedd y mae athrawon yn eu cael i ddod yn gysylltiedig â chymunedau dysgu proffesiynol ac i rannu arfer dda y tu hwnt i'r ardal leol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae staff wedi datblygu partneriaethau cadarn gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill sy'n ehangu profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae rhieni yn gefnogol o'r ysgol ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a gânt am weithgareddau'r ysgol a chynnydd eu plant. Mae cysylltiadau gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol, er enghraifft, Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd profiadau'r disgyblion. Mae disgyblion yn elwa'n fawr ar y bartneriaeth werthfawr sydd gan yr ysgol â dwy ysgol yn Ffrainc.

Mae'r cysylltiadau agos rhwng yr ysgol a'r lleoliad cyn-ysgol ar y safle, yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth i'r Cyfnod Sylfaen. Mae cysylltiadau cadarn gyda'r ysgol uwchradd sy'n derbyn yn hwyluso trosglwyddo'r disgyblion yn dda o un cyfnod allweddol i'r nesaf, ac yn sicrhau parhad a dilyniant yn y dysgu. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion i gynllunio, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn safonau disgyblion ac at ddatblygu dulliau newydd, yn enwedig mewn llythrennedd a gwyddoniaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol yn rheoli ac yn defnyddio adnoddau staff ac adnoddau ariannol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae gan yr ysgol nifer briodol o athrawon a staff cymorth i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Ceir trefniadau da ar gyfer datblygu staff ac ar gyfer darparu amser paratoi, cynllunio ac asesu i athrawon. Mae gan yr ysgol adnoddau helaeth sydd mewn cyflwr da ac yn diwallu anghenion disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda ac yn sicrhau adnoddau priodol i fodloni'r anghenion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol, felly mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae'r asesiad gwaelodlin o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn mynd i mewn i'r ysgol gyda medrau sydd islaw hynny a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o oed tebyg.

Yn 2012, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu gerllaw cyfartaledd Cymru ond yn is na chyfartaledd y teulu. Mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, roedd y ganran a gyflawnodd y deilliannau disgwyliedig uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Roedd perfformiad yr ysgol o'i gymharu â pherfformiad ysgolion â lefelau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn y 50% uchaf mewn datblygiad mathemategol. Fe wnaeth perfformiad yr ysgol mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol osod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg.

Roedd cyfran y disgyblion mwy galluog a gyflawnodd deilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol. Roedd islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn medrau personol a chymdeithasol. O'i gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol o ran y deilliant uwch yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol, ond yn y 50% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yng nghyflawniadau cymharol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012 o ran y deilliant disgwyliedig. Cyflawnodd merched gryn dipyn yn well na bechgyn o ran y deilliant uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf ar gyfer cyhoeddi data'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ddata ar gael ar dueddiadau.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion cyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru. Dros y pedair blynedd flaenorol, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc yn gyson uwchlaw cyfartaledd Cymru, a gerllaw neu'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Yn sgil perfformiad yr ysgol yn 2012 roedd ymhlith y 25% isaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mewn tair o'r pedair blynedd flaenorol, yn sgil canran y disgyblion a gyflawnodd y lefelau disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion mwy galluog a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) ym mhob un o'r tri phwnc craidd islaw cyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru.

Fe wnaeth perfformiad yr ysgol ar y lefel hon ei gosod yn y 50% isaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Dros y pedair blynedd diwethaf, fe wnaeth perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Saesneg a mathemateg ei gosod yn gyson yn y 50% uchaf. Yn sgil perfformiad mewn gwyddoniaeth, roedd yn y 50% uchaf mewn dwy o'r blynyddoedd hynny.

Nid oes unrhyw batrwm cyson ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn Saesneg, er nad oes unrhyw wahaniaeth sylweddol ar y lefel ddisgwyliedig, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn yn gyffredinol ar y lefel uwch. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cystal â disgyblion nad oes hawl ganddynt i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Fe wnaeth ugain o rieni neu ofalwyr lenwi'r holiadur. Mae eu lefelau boddhad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob un o'r rhieni bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol, ac mae bron pob un ohonynt yn hyderus eu bod yn ddiogel yno. Cytuna pawb fod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu pan ddaethant i'r ysgol gyntaf. Dywed pob un ohonynt fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae bron pawb yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Dywed pob un y byddent yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â mynd i'r ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem. Mae pawb a ymatebodd yn deall beth i'w wneud os ydynt am wneud cwyn. Mae pob un o'r rhieni yn cytuno bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da, a theimla bron pawb eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Cred bron pob un ohonynt fod ymddygiad yn dda. Mae pawb a ymatebodd o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae pob un o'r rhieni neu ofalwyr o'r farn fod yr addysgu yn dda, ac maent yn hapus fod yr athrawon yn disgwyl i'r disgyblion roi o'u gorau. Cred pob un ohonynt fod yr athrawon yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac ysgwyddo cyfrifoldeb, a dywed pawb a ymatebodd fod eu plentyn yn cael ei baratoi/pharatoi yn dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Cytuna'r holl rieni neu ofalwyr a ymatebodd fod y gwaith cartref a osodir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae pawb a ymatebodd yn hyderus bod eu plentyn yn cael digon o gymorth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol. Cred pawb bron fod yna ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Fe wnaeth 105 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur. Roedd yr ymatebion i bob un o'r cwestiynau uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a chytuna bron pawb fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Cytuna pawb eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni, neu'n gweld eu gwaith yn anodd. Dywed bron pob un ohonynt fod yr ysgol yn eu helpu i fod yn iach. Cytuna pawb fod yr ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt fod yn weithgar yn gorfforol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Cytuna pawb fod yr athrawon a'r staff cymorth yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae pob un ohonynt yn cytuno bod ganddynt ddigon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol, a chredant fod gwaith cartref yn eu helpu i wella ar eu gwaith yn yr ysgol. Cytuna pob un bron fod y plant i gyd yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Edward Williams | Arolygydd Tîm |
| Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Mari Rhiannon Gaskell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Roberts | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.